

Cyngor Cymuned Llanelian (270)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Tachwedd 10, 2015 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:

Dafydd Griffiths, T Elfyn Hughes, Thomas D Jones, John Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Hefina Williams, Helen Hughes, Cyng. Wil Hughes

Ymddiheuriadau:

Cyng Aled M Jones, Cyng Richard Jones

- 1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan D Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod.**
- 2 Datgan Diddordeb**
Cyng Wil Hughes – materion cynllunio
Helen Hughes a TD Jones – materion y fynwent
- 3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Gordon Hayes, Eilio TD Jones
- 4 Materion yn Codi**
 - 4.1 Carffosiaeth – cadarnhawyd bod posteri wedi eu dosbarthu.
 - 4.2 Offer Chwarae – nid yw'r gwaith cywiro wedi ei wneud hyd yma gofynnwyd i'r clerc gysylltu eto. CET
 - 4.3 Gyrru pasio'r ysgol – cafwyd wybod gan Glenys Jones bod y Prifathro wedi bod mewn cysylltiad a Cyng Aled M Jones heddiw. Fe gadarnhaodd Cyng Wil Hughes y byddai yn barod i gyfarfod a'r heddlu a swyddogion yr adran briffyrdd i drafod ymhellach Byddai yn cysylltu a Cyng Aled M Jones i drefnu. WTH
AMJ
- 5 Cynllunio**
 - 5.1 Ceisiadau – ni chyflwynwyd ceisiadau newydd i'w trafod.
 - 5.2 Penderfyniadau -
Roedd tri penderfyniadau i'w cofnodi:
 - Ardwyn – caniatad
 - Dwyfor – caniatad
 - Tyddyn Mawr – cyfreithiol / caniatad
 - 5.3 Apel – deallwyd bod cais Lledtroed Mawr am godi tai newydd yn y pentref wedi mynd i apel. Fe gafodd y cais ei drafod yn wreiddiol gan y Cyngor Cymuned ym Mis Ionawr 2014 pryd fynegwyd pryderion yr aelodau. Cadarnhawyd bod pryderon yr aelodau yn parhau, yn enwedig wedi i'r Cyngor Sir ganiatau datblygiad Corn Cam er bod y Cyngor Cymuned wedi nodi pryderon gyda'r cais hwnw hefyd. Cytuno ymateb i'r ddogfen apel gyda'r un ymateb gan amlinellu'r pryderon eto. CET
- 6 Materion Ariannol**
 - 6.1 Taliadau – cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£10.00 Ysgol Gynradd (Gwobr Gwyn) 2015/16
£75.00 Yr Arwydd (Cyfraniad Blynnyddol) 2015/16
£600 Neuadd Bentref (Cyfraniad Blynnyddol) 2015/16
£540 Ad-daliadau y/a goriadau slip (£20.00 x 27)
£18.50 Poppy Appeal (Torch)
 - 6.2 Cais am Arian – Cafwyd ddiweddariad gan Hefina Williams am yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mon 2017. Mae target o £10,000 wedi ei osod i ardal Amlwch a Llanelian ac mae'r pwyllgor yn ffyddiog o gyrraedd hynnu dros y ddwy flynedd nesaf.
- 7 Llithrfa**
Cafwyd grynoded o gyfarfod Partneriaeth Llithrfa Llanelian ag Andy McAvady swyddog y Cyngor Sir. Fe gadarnhaodd y CLerc ei bod wedi anfon y cofnodion at Andy McAvady, John Owen, Iwan Huws ac Dylan Williams yn ogystal a'r cynghorwyr sirol.

Fe gadarnhaodd y clerc beth oedd ffigyrau ariannol yn ymwneud a'r cynllun am 2015 a bod balans o £811.99 i'r Cyngor cymuned (hynnu wedi talu yn ol i'r rheini oedd wedi dychwelyd eu goriadau a chostau gweinyddu). Roedd hyn llawer iawn is na blynyddoedd cynt, a hynnu mae'n debyg gan nad oedd goriadau ar gael i'w dosbarthu yn ddigon cynnar yn y flwyddyn.

Mae disgwyl i'r Cyngor Sir ymateb i'r Cyngor Cymuned yn dilyn cyfarfod adran forwrol heddiw (10/11/2015) a gobeithir gallu adrodd yn ol i'r aelodau erbyn y cyfarfod nesaf.

CET

Fe ofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau i fewn i sut mae cyllid yr adran forwrol yn cael ei wario.

CET

8 Mynwent

Fe ofynnodd y clerc am gadarnhad o'r polisi a chostau claddu ym mynwentydd Llanelian a Bosra yn dilyn cwestiwn diweddar. Rhoddwyd crynodeb o'r sefyllfa dan sylw a thrafodwyd prisiau claddu cymunedau eraill cyfagos.

Roedd pryder nad oedd unigolion oedd wedi prynnu bedd yn y gorffennol yn ymwybodol o beth oedd wedi ei gynnwys yn y pris, ac o bosib bod polisiau'r Cyngor wedi newid ers hynnu. Nid oes polisi cyn 2010.

Cynnigwyd a chytuno bod claddedigaeth gyntaf mewn safle wedi ei brynnu cyn 2010 yn gynwysiedig yn y pris a dalwyd ar y pryd. Ar ol 2010 byddai cost ychwanegol yn unol a'r polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Bydd posib i brisiau claddu newid o flwyddyn i flwyddyn, ac fe drafodwyd y prisiau yn ol yn 2014. Cytuno bod costau 2014 yn ddigonol ar hyn o bryd. Cytuno hefyd gofyn i Un Llais Cymru gadarnhau geirfa'r polisi i sicrhau bod gan y Cyngor yr hawl i newid prisiau claddu.

CET

Cytuno rhoi arian yn ol i'r ddau gladdedigaeth sydd eisioes wedi cymryd lle (ac wedi prynnu bedd cyn 2010), ac anfon copi o'r polisi newydd at holl ymgymerydd yr ardal a ble'n bosib y rheini sydd wedi prynnu safle bed yn ddiweddar.

CET

9 Gohebiaeth

9.1 Mae'r Cyngor Sir ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ddyfodol llyfrgelloedd yr ynys. Cytuno bod y gwasanaeth yn bwysig i'r gymuned, a hefyd pwysigrwydd y fan/bws sydd yn ymweld a chymunedau.

CET

9.2 Cafwyd wybodaeth am ddyddiadau cymorthfeydd nesaf Horizon yn ymwneud ag Wylfa Newydd.

9.3 Cafwyd wybodaeth am ymgynghoriad diweddaraf y Grid Cenedlaethol a'u sesiynnau gwybodaeth yn yr ardal leol. Cytuno bod yr holl aelodau o'r farn nad oedd y gymuned am weld peilonau ynchwanegol yng Ngogledd Mon. Cytuno ymateb yn gwrthwynebu peilonau ac yn cefnogi opsiwn o cuddio'r ceblau trydabol dan ddaear.

CET

10 Unrhyw Fater Arall

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 8/12/2015

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.15 o'r gloch.